**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 29 Gorffennaf 2019 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| P Lewis (Cadeirydd) | Conwy |
| D Rees (Dirprwy Gadeiryddr) | Ynys Môn |
| R Griffiths | Ynys Môn |
| J B Hughes | Gwynedd |
| G G Williams | Gwynedd |
| R Parry | Conwy |
| A Tansley | Conwy |
| M Ll Davies | Sir Ddinbych |
| M Bateman | Sir y Fflint |
| R Roberts | Wrecsam |

HEFYD YN BRESENNOL
S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc); K Finch (Trysorydd); A Hughes ar gyfer Eitem 6, E Lake, N Selwyn ac S Frank (Swyddfa Archwilio Cymru); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); K Roberts (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol; N Sion (Cyfieithydd); D Davies (Ysgrifenyddiaeth / Cofnodydd).

Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| A Davies | Sir Ddinbych |
| M Dixon | Wrecsam |

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd M Ll Davies am ei gyfraniad i'r Awdurdod fel Cadeirydd.

Fe wnaeth y Cadeirydd dderbyn, a chymeradwyo, cais gan A Hughes o Swyddfa Archwilio Cymru i newid trefn yr Agenda.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 MAI 2019

3.1 Cafodd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

**3.2 PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Fe wnaeth y Prif Swyddog Tân ddarparu diweddariad ar lafar i roi gwybodaeth a sicrwydd i'r Aelodau am gynlluniau'r Gwasanaeth petai'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.

4.2 O ystyried y datblygiadau diweddaraf, bydd y Gwasanaeth nawr yn dwyn ymlaen y cynlluniau i ailgynnal y cyfarfodydd cynllunio Aur Strategol mewnol gan fod y cyfarfodydd rhanbarthol wedi ailddechrau.

**4.3 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a chael gwybodaeth bellach pan fyddai honno ar gael.**

5 CYMERADWYO DATGANIAD O GYFRIFON 2018/19

5.1 Fe wnaeth y Trysorydd gyflwyno'r adroddiadau a oedd yn rhoi Datganiad o Gyfrifon 2018/19, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a'r Adroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Fe wnaeth y Trysorydd ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

5.2 Fe wnaeth y Trysorydd atgoffa'r Aelodau fod rhaid iddynt gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a'r datganiad llywodraethu blynyddol erbyn y dyddiad diwygiedig sef 31 Gorffennaf 2019, a dywedodd wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor Archwilio, yn eu gwaith yn craffu ar yr adroddiadau cyllid ac yn gwneud argymhellion i'r Panel Gweithredol, wedi ystyried y tair eitem hon yn gynharach heddiw. Cadarnhaodd y PSC MacArthur beth roedd y Pwyllgor Archwilio yn ei argymell i'r Panel Gweithredol.

5.3 Aeth y Trysorydd â'r Aelodau drwy gynnwys y tri adroddiad, ac atebodd gwestiynau'r Aelodau.

5.4 Soniodd y PSC MacArthur am y materion allweddol i'w nodi.

**5.5 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi argymhellion y Pwyllgor Archwilio;**

**(ii) cymeradwyo'r sefyllfa alldro archwiliedig a'r perfformiad fel y nodir yn Natganiad o Gyfrifon 2018/19;**

**(iii) cymeradwyo'r trefniadau llywodraethu a'r cynllun gweithredu fel yr amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19;**

**(iv) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.**

Torrodd y cyfarfod ar gyfer llofnodi'r cyfrifon.

6 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

6.1 Yn dilyn cais gan Swyddfa Archwilio Cymru, cymerwyd eu hadroddiadau mewn trefn wahanol i'r hyn a nodwyd yn yr agenda.

6.2 Cyflwynodd N Selwyn yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 ac a oedd yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn ystod 2019/20.

6.3 Rhoddodd E Lake ac S Frank gyflwyniad ar ganfyddiadau a chasgliadau archwiliad mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac archwiliad o berfformiad ATAGC mewn perthynas â phartneriaethau a chyweithiau yn 2018/19.

6.4 Fe wnaeth N Selwyn gyflwyno Briff Prosiect ar gyfer 2019/20, sy'n nodi pecyn integredig arfaethedig o archwiliadau perfformiad i'w cynnal yn y flwyddyn ariannol hon, sef:

- Gwaith asesu gwelliant a pherfformiad yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009;
- Adolygiad o ddull a rheolaeth yr Awdurdod ar gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i wasanaethau; a
- Gwiriad ysgafn o'r cynnydd, gan nodi'r meysydd gwella perthnasol yn archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac archwiliad o ba mor dda mae ATAGC yn perfformio mewn perthynas â phartneriaethau a chyweithiau yn 2018/19.

**6.5 PENDERFYNWYD nodi:**

**(i) cynnwys Adroddiad Gwella Blynyddol 2019;**

**(ii) canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a chasgliadau archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o bartneriaethau a chyweithiau;**

**(iii) Briff Prosiect.**

7 MONITRO PERFFORMIAD – CHWARTER 1, 2019/20

7.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o weithgareddau GTAGC a'i berfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella yn ystod tri mis cyntaf 2019/20.

7.2 Rhoddodd y PSC Morris fanylion yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad, ac ymatebodd i sylwadau a chwestiynau'r Aelodau ynglŷn â chofnodi galwadau, mynd at larymau tân awtomatig domestig, a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.

**7.3 PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

8 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU 2019

8.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi drafft bron yn derfynol o ddogfen ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn 2019, i'w gymeradwyo.

8.2 Mae'r Awdurdod wedi derbyn argymhelliad y Panel Gweithredol i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Ebrill 2020 ac ymlaen. Mae'r ddogfen ymgynghori ddrafft yn gwahodd unrhyw un sydd â diddordeb i gyflwyno sylwadau i'r Awdurdod, cyn y dyddiad cau sef 4 Hydref 2019, ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y Strategaeth.

8.3 Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei roi mewn adroddiad i'r Awdurdod gael ei ystyried.

**8.4 PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys dogfen ddrafft yr ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'r strategaeth y mae'r Awdurdod wedi cytuno arni ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn 2019.**

9 TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLID YR AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

9.1 Yn dilyn cyfarfod diweddar gyda'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Hannah Blythyn AC, a'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn ddiweddarach ar 18 Gorffennaf 2019, fe wnaeth y Prif Swyddog Tân roi gwybod ar lafar am y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r Papur Gwyn a oedd yn cynnig newidiadau i Drefniadau Llywodraethu a Chyllid yr ATAau yng Nghymru.

9.2 Disgwylir datganiad ysgrifenedig pellach gan y Dirprwy Weinidog yn yr hydref.

**9.3 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

RHAN II

10 CYFLOGAU DIFFODDWYR TÂN

10.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybodaeth ar lafar i'r Aelodau am y diweddaraf gan y Cyflogwyr Cenedlaethol ynglŷn â negodiadau ynghylch cyflogau diffoddwyr tân ar gyfer 2019/20 a'r trafodaethau ynglŷn ag ehangu swydd y diffoddwyr tân.

**10.2 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnodion gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:________________________________________Dyddiedig:__________________________**